# Map ffordd i ddiwygio'r bysiau

## Diweddariad i'r ardaloedd masnachfreinio

**Tachwedd 2024**





Mae Trafnidiaeth Cymru yn eiddo i **Lywodraeth Cymru**
Transport for Wales is owned by the **Welsh Government**

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

# Diweddariad i'r ardaloedd masnachfreinio

Ym mis Mawrth 2024, cafodd Ein Map Ffordd i Ddiwygio'r Bysiau ei bennu gan Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru ar y cyd, a ddarparodd amlinelliad o'n dull arfaethedig o fwrw ati gyda masnachfreinio bysiau.

Yn y Map Ffordd, dywedon ni y byddem yn cyflwyno'r newid hwn ar draws ardaloedd masnachfreinio a bod amserlen ar gyfer cyflwyno ardaloedd a phecynnau masnachfreinio yn cael ei datblygu. I ddechrau, fe wnaethom awgrymu 9 ardal fasnachfreinio bosibl.

Ers cyhoeddi'r Map Ffordd, rydym wedi parhau i ymgysylltu â llywodraeth leol, Cyd-bwyllgorau Corfforaethol a chynrychiolwyr y diwydiant. O ganlyniad, cytunwyd y byddai'n well lleihau'r nifer o ardaloedd yr ydym am gyflwyno'r cynllun i 4 ardal sy'n adlewyrchu ffiniau'r Cyd-bwyllgorau Corfforaethol.

Mae'r rhesymeg dros y newid hwn wedi'i hamlinellu isod. Bydd cyflwyno'r newid ar draws 4 ardal fasnachfreinio, sy'n adlewyrchu ffiniau Cyd-bwyllgorau Corfforaethol yn helpu:

- I alinio'r cynlluniau masnachfreinio â'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol, y mae'r Cyd-bwyllgorau Corfforaethol yn eu datblygu ar hyn o bryd.
- I ddatblygu'r gwaith rhanbarthol presennol sy'n bodoli ar draws awdurdodau lleol heddiw a chydlynu cynllunio.
- I leihau'r cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â throsglwyddo i'r system fasnachfreinio, gan ei gwneud mor syml a llyfn â phosibl.

Mae'r newid yn dal i ganiatáu i ni sicrhau'r ystyriaethau allweddol y mae angen i ni eu hystyried wrth gytuno ar drefn ar gyfer cyflwyno parthau masnachfreinio. Yn y Map Ffordd, dywedon ni fod y rhain yn cynnwys:

- Cymhlethdod y rhwydwaith, gan gynnwys symudiadau traws-sirol a thrawsffiniol
- Lefelau presennol y rheolaeth a'r gystadleuaeth o fewn y parthau hynny[1]
- Y gallu i gynyddu refeniw yn yr ardal
- Cyfleoedd datgarboneiddio bysiau ar gael.


Rydym wedi edrych ar yr ystyriaethau allweddol hyn, ac ar hyn o bryd rydym yn bwriadu dechrau masnachfreinio yn Ne-orllewin Cymru. Mae'r amserlen bresennol ar gyfer cyflwyno masnachfreinio yn dilyn yn y drefn ganlynol:

1. De-orllewin Cymru (2027)
2. Gogledd Cymru (2028)
3. De-ddwyrain Cymru (2029)
4. Canolbarth Cymru (2030)


Bydd y drefn gyflwyno yn cael ei chadarnhau yn ddiweddarach.

---

1 Mae'r lefelau rheoli a chystadleuaeth presennol mewn ardal yn cyfeirio at gyfansoddiad y farchnad fysiau. Pan fo cyfran uchel o wasanaethau bws yn cael eu contractio gan awdurdodau lleol, disgwylir i reolaeth y sector cyhoeddus fod yn uchel, yn enwedig lle mae contractau'n gost grynswth. Lle mae cyfran uchel o wasanaethau bws yn wasanaethau masnachol hyfyw, efallai y bydd llawer o gystadleuaeth.




**Ffigur 1.1: Ardaloedd cyflwyno posibl (yn y Map Ffordd)**




**Ffigur 1.2: Ardaloedd cyflwyno arfaethedig newydd**